OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 746 (Cy.101)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Partneriaeth Cymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn awdurdodau lleol at ddibenion adran 72(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Effaith hyn yw galluogi Gweinidogion Cymru i benodi aelodau o Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn aelodau o Gyngor Partneriaeth Cymru, a sefydlwyd o dan adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn erthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd hi'n anghenrheidiol i wneud asesiad effaith rheoleiddiol o ran costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 746 (W.101)

# CONSTITUTIONAL LAW

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Partnership Council for Wales (Local Health Boards and National Health Service Trusts) Order 2012

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order specifies Local Health Boards and National Health Service Trusts in Wales as local authorities for the purposes of section 72(5) of the Government of Wales Act 2006. This has the effect of enabling Welsh Ministers to appoint members of Local Health Boards and National Health Service Trusts in Wales as members of the Partnership Council for Wales, established under section 72 of the Government of Wales Act 2006.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 746 (Cy.101)

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Partneriaeth Cymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Mawrth 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *9 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym* | *3 Ebrill 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 72(5)(e) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

Yn unol ag adran 72(6) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Chyngor Partneriaeth Cymru(**2**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Partneriaeth Cymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Ebrill 2012.

(**1**) 2006 p.32.

(**2**) Mae cyfeiriadau at "Cyngor Partneriaeth Cymru" yn cyfeirio at y corff a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru ac sy'n cael ei gynnal ganddynt o dan adran 72(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 746 (W.101)

# CONSTITUTIONAL LAW

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Partnership Council for Wales (Local Health Boards and National Health Service Trusts) Order 2012

| | |
|---|---|
| *Made* | *7 March 2012* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *9 March 2012* |
| *Coming into force* | *3 April 2012* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred upon them by section 72(5)(e) of the Government of Wales Act 2006(**1**) make the following Order.

In accordance with section 72(6) of that Act, the Welsh Ministers have consulted with the Partnership Council for Wales(**2**).

**Title, commencement and application**

**1**.—(1) The title of this Order is the Partnership Council for Wales (Local Health Boards and National Health Service Trusts) Order 2012.

(2) This Order comes into force on 3 April 2012.

(**1**) 2006 c.32.

(**2**) References to "the Partnership Council for Wales" are references to the body established and maintained by the Welsh Ministers under section 72(1) of the Government of Wales Act 2006.

**Dehongli**

**2**. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Byrddau Iechyd Lleol" ("*Local Health Boards*") yw'r Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**); ac

ystyr "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service Trusts*") yw'r Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**2**).

**Pennu awdurdodau**

**3**. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol wedi eu pennu'n awdurdodau lleol at ddibenion adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Interpretation**

**2**. In this Order—

"Local Health Boards" ("*Byrddau Iechyd Lleol*") means the Local Health Boards established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**); and

"National Health Service Trusts" ("*Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol*") means the National Health Service Trusts established under section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**2**).

**Specification of authorities**

**3**. Local Health Boards and National Health Service Trusts are specified as local authorities for the purposes of section 72 of the Government of Wales Act 2006.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Local Government and Communities, one of the Welsh Ministers

7 Mawrth 2012

7 March 2012

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) 2006 p.42. *Gweler* Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu a Diddymu) (Cymru) 2009, O.S. 2009/778 (Cy. 66). Diwygiodd y Gorchymyn hwn yr Atodlen i Orchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003, O.S. 2003/148 (Cy.18).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009, O.S. 2009/2058 (Cy.177), Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993, O.S. 1993/2838, a ddiwygiwyd gan O.S. 1999/826, O.S. 2002/442 (Cy.57), O.S. 2002/2199 (Cy.219), O.S. 2009/2059 (Cy.178) a Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (Sefydlu) 1998, O.S. 1998/678, a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/201 (Cy.26).

(**1**) 2006 c.42. *See* the Local Health Boards (Establishment and Dissolution) (Wales) Order 2009, S.I. 2009/778 (W. 66). This Order amended the Schedule to the Local Health Boards (Establishment) (Wales) Order 2003, S.I. 2003/148 (W.18).

(**2**) *See* the Public Health Wales National Health Service Trust (Establishment) Order 2009, S.I. 2009/2058 (W.177), the Velindre National Health Service Trust (Establishment) Order 1993, S.I. 1993/2838, amended by S.I. 1999/826, S.I. 2002/442 (W.57), S.I. 2002/2199 (W.219), S.I. 2009/2059 (W.178) and the Welsh Ambulance Services National Health Service Trust (Establishment) Order 1998, S.I. 1998/678, amended by S.I. 2009/201 (W.26).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 746 (Cy.101)

## Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Cyngor Partneriaeth Cymru (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol) 2012

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 746 (W.101)

## CONSTITUTIONAL LAW

## LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Partnership Council for Wales (Local Health Boards and National Health Service Trusts) Order 2012

£4.00

W1243/03/12 ON